**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 17 Ebrill 2023 am 2.30 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | C A Holley |
| D H Hopkins | L R Jones | A S Lewis |
| A Pugh | R C Stewart | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig.

**Bu'r Cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

## 2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd A S Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig.

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

**5 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**6 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.**

Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad o'r Prif Weithredwr.

**Penderfynwyd:**

1) Diwygio a chymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.52 pm

**Cadeirydd**